WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 104A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn gosod allan yr arfer i'w ddilyn wrth drin ceisiadau a ddisgwylir o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a'm helpodd i baratoi'r adroddiad hwn oedd David Thomas, Ann-Marie Harkin, Carol Moseley a Geraint Norman.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Am yr adroddiad hwn 7

Adran 1: Archwilio'r cyfrifon 8

Cyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er i mi, wrth wneud hynny, dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater a gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio 8

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 10

Ar waethaf mesurau brys a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i gael cydbwysedd ariannol diwedd-blwyddyn, nid yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn gynaliadwy, gyda bwlch cyllido sy'n cynyddu, a rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn sylweddol am 2016-17 11

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei agwedd at gynllunio a'i drefniadau llywodraethiant ac yn ymdrin â rhai argymhellion blaenorol, ond mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau 12

Gwelodd fy ngwaith archwilio perfformiad rai datblygiadau cadarnhaol, ond cyfleoedd hefyd i wneud gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd pwysig 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – Ffî archwilio 18

Atodiad 3 – Risgiau archwilio arwyddocaol 19

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wneuthum ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith a wneuthum yn y Bwrdd Iechyd yn caniatáu i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yng nghyswllt archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth yn ei defnydd o adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol arwyddocaol sydd yn wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae mwy o fanylion am agweddau penodol f'archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddais yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunwyd ar eu cywirdeb ffeithiol gyda'r swyddogion a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir yr adroddiadau a gyhoeddais yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar yr adroddiad hwn o ran cywirdeb ffeithiol gyda'r Prif Weithredwr cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 19 Ionawr 2017. Caiff ei gyflwyno wedyn i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Argymhellwn yn gryf fod y Bwrdd Iechyd yn lledaenu ac yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Wedi iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Crynhoir negeseuon allweddol fy ngwaith archwilio dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: archwilio'r cyfrifon

6 Cyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er i mi, wrth wneud hynny, dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater fel sydd wedi eu gosod allan yn fy adroddiad ISA260.

7 Hefyd, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae f'adroddiad yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r oblygiadau am 2016-17.

8 Deuthum i'r casgliad hefyd fod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi yn iawn a'u bod yn sylweddol gywir. Ni ddaeth fy ngwaith o hyd i unrhyw wendidau perthnasol yng nghamau rheoli'r Bwrdd Iechyd sydd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

9 Ddaeth y Bwrdd Iechyd i gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16. Rwy'n gosod allan fwy o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

10 Adolygais drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith asesu strwythuredig a archwiliodd drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethiant a sicrwydd, a'r cynnydd a wnaed yng nghyswllt argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau o archwiliadau perfformiad hefyd ynghylch contractau meddygon ymgynghorol, arlwyo ysbytai a maethiad cleifion, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion fy archwiliad blaenorol o TG. Arweiniodd y gwaith hwn fi i dynnu'r casgliadau a ganlyn:

## Ar waethaf mesurau brys a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i gael cydbwysedd ariannol diwedd-blwyddyn, nid yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn gynaliadwy, gyda bwlch cyllido sy'n cynyddu, a rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn sylweddol am 2016-17

11 Mae trefniadau cynllunio ariannol ar gael, ond nid yw'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a nodau ehangach moderneiddio'r gwasanaeth wedi eu datblygu'n llawn, ac ni allodd y Bwrdd Iechyd osod cynllun tymor canol integredig (CTCI) oedd yn cydbwyso yn ariannol

12 Mae trefniadau ar gyfer camau rheoli ariannol a stiwardiaeth ar gael, yn ychwanegol at drefniadau monitro ariannol. Fodd bynnag, mae angen cryfhau trefniadau craffu sydd yn sicrhau fod camau rheoli ariannol yn cael eu cymhwyso'n gadarn, a gwella adrodd ariannol, yn enwedig i'r Bwrdd.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn adrodd am ddiffyg diwedd-blwyddyn tebygol o £39 miliwn. Mae'r diffyg cyson o ran arbedion a gynlluniwyd a dibyniaeth ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gadw'r ddysgl yn wastad yn arwydd o sefyllfa ariannol anghynaladwy, ac nid yw'r effaith ar gyflwyno gwasanaethau a pherfformiad yn y tymor byr na'r tymor hir yn glir.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei agwedd at gynllunio a'i drefniadau llywodraethiant ac yn ymdrin â rhai argymhellion blaenorol, ond mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau

14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei agwedd at gynllunio, ond nid oes ganddo ar hyn o bryd CTCI a gymeradwywyd. Mae angen iddo gryfhau craffu ar y CTCI a sicrhau bod digon o gapasiti yn y sefydliad a rhyngweithio cliriach rhwng rhaglenni a blaenoriaethau cynllunio, comisiynu a chyflwyno.

15 Mae system ddiffiniedig o sicrwydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i'w hadolygu a'i datblygu, er bod angen cyfoesi'r fframwaith rheoli perfformiad a bod cyfleoedd i ymestyn mapio risg a sicrwydd. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gyffredinol yn rhedeg yn effeithiol, er bod angen mwy o amser i wreiddio newidiadau diweddar i rai pwyllgorau, ac y mae penodi aelodau newydd i'r bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg.

16 Cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau i ymdrin â'm hargymhellion o asesiad strwythuredig 2015. Fodd bynnag, ni ymdriniwyd ag argymhellion ynghylch cynllunio ac adrodd ariannol, ac y mae angen gwneud mwy i ddatblygu a gwreiddio camau ar gyfer rhai eraill.

## Gwelodd fy ngwaith archwilio perfformiad rai datblygiadau cadarnhaol, ond cyfleoedd hefyd i wneud gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd pwysig

17 Gwnaeth y Bwrdd Iechyd beth cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion blaenorol er yr erys rhai camau pwysig heb eu gwneud. Canfu fy ngwaith yn 2016 y canlynol:

- Erys cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn hynod anghyson ar draws y Bwrdd Iechyd ac y mae rhai o'r manteision cychwynnol a ddaeth o gontract y meddygon ymgynghorol wedi erydu dros amser. Fodd bynnag, fe all newidiadau sefydliadol diweddar a chynlluniau i gyflwyno cynllunio swyddi electronig helpu i gryfhau trefniadau.
- Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da i ymdrin â'm hargymhellion blaenorol ar arlwyo ysbytai a maethiad cleifion, ond mae angen mwy o waith i gryfhau mwy ar brosesau dogfennu a gwybodaeth am gleifion, ymestyn y dewis o brydau, sicrhau hyfforddiant rheolaidd, a lleihau'r bwlch rhwng cost ac incwm arlwyo heb fod i gleifion.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â materion a godwyd mewn archwiliadau TGCh blaenorol. Fodd bynnag, mae cynnydd arafach mewn rhai meysydd, rhai newidiadau sefydliadol diweddar a chyfoesi'r bensaernïaeth TG yn golygu bod angen gweithredu ymhellach.

18 Yr ydym yn cydnabod yn ddiolchgar gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Am yr adroddiad hwn

19 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn am 2016 i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn gosod allan ganfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wneuthum rhwng Rhagfyr 2015 a Rhagfyr 2016.

20 Gwneir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion sy'n cael eu gosod allan yn Neddf 2004[1]. Mae'r ddeddf honno yn mynnu fy mod yn gwneud y canlynol:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun y cymhwyswyd y gwariant a'r incwm y mae a wnelo'r cyfrifon â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n rheoli hynny; a

c) bodloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol am sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei defnydd o adnoddau.

21 O ran (c), cefais sicrwydd neu fel arall o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethiant a sicrwydd;
- archwiliadau archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd; a
- chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

22 Cyhoeddais nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynir mewn adroddiadau mwy manwl, ac y mae rhestr o'r rhain yn Atodiad 1.

23 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: archwiliad o'r cyfrifon
- Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

24 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf ar y ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol gwneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a osodwyd allan yng Nghynllun Archwilio 2016.

25 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn gosod allan y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio yn 2016 a sut yr ymdriniwyd â hwy trwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio'r cyfrifon

26 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd am 2015-16. Trwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn arddangos ei berfformiad ariannol ac yn gosod allan ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o arddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

27 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae gofyn i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ac o'i incwm a gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiad sylweddol – boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad;
- a ydynt wedi eu paratoi yn unol â gofynion statudol ac eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol o ran cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan hwnnw o'r adroddiad cydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi ei baratoi yn iawn; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

28 Wrth roi'r farn hon, yr wyf wedi cydymffurfio â'm Cod o Arfer Archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs).

## Cyhoeddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er i mi, wrth wneud hynny, dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater a gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi yn iawn ac y maent yn sylweddol gywir

29 Paratowyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer eu harchwilio erbyn y terfyn amser cytunedig ac yr oeddent eto o safon uchel. Mae gan y Bwrdd Iechyd weithdrefnau sicrhau ansawdd ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol ac y mae lefel uchel o graffu gan y Pwyllgor Archwilio. Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifo yn briodol a bod y datgeliadau datganiad ariannol yn ddiduedd, teg a chlir.

30 Mae ISA 260 yn mynnu fy mod yn adrodd am faterion yn deillio o'm gwaith i'r sawl sydd â'r ddyletswydd o lywodraethiant cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio am y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymwneud Archwilio Ariannol am y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2016. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a osodir allan yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion allweddol a nodwyd yn Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylw |
| --- | --- |
| Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i bob contract dros £1 miliwn. | Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i bob contract dros £1 miliwn. Tybir fod gwariant na chymeradwywyd yn ôl yr angen yn afreolaidd.<br>Nododd fy nhîm daliadau i ddarparwr gofal iechyd preifat oedd yn gyfanswm o £2.8 miliwn yn ystod 2015-16 na chafwyd caniatâd penodol Llywodraeth Cymru iddo tan ddiwedd Ionawr 2016.<br>Er ei fod yn arwyddocaol, nid yw'r gwariant afreolaidd dros berthnasedd, ac nid yw felly yn cael effaith ar y farn archwilio. |
| Polisi Perfformiad Sector Cyhoeddus (PPSC) – Mesur Cydymffurfio | Mae'r datganiadau ariannol yn gosod allan berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn 'cod talu prydlon' y PTSC – gosododd Llywodraeth Cymru darged o 95 y cant am nifer y taliadau heb fod yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod o'u cyflwyno.<br>Adroddodd y Bwrdd Iechyd berfformiad o 95.3 y cant yn erbyn y targed hwn am 2015-16.<br>Nid yw system Exeter a ddefnyddir gan bob Bwrdd Iechyd i brosesu taliadau gofal sylfaenol yn rhoi unrhyw wybodaeth ystadegol am nifer y dyddiau a gymerwyd i wneud taliadau. O 2015-16 ymlaen, penderfynodd Llywodraeth Cymru eithrio'r taliadau hyn o'r cyfrifo, tra bod cyrff iechyd cyn hyn wedi rhagdybio fod pob anfoneb yn cael ei dalu o fewn y cyfnod 30 diwrnod.<br>Mae hyn yn debyg o ostwng y perfformiad cyffredinol o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol er na fedrwn fesur hyn. |

31 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais hefyd adolygiad o gofnod Cyfrifon Llywodraethu Cyfan y Bwrdd Iechyd. Deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gydgrynhoi y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016 ac y paratowyd y cofnod yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

32 Mae fy adolygiad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd yn gyflawn. Ar 28 Medi 2016 cyhoeddais adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn y camau rheoli mewnol er i mi adrodd y dylai'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wneud y canlynol:

- gweithredu ar unwaith i ofalu fod pob gwariant o'i Gronfeydd Elusennol yn cael ei gymeradwyo yn unol â'r terfynau dirprwyo a'r gweithdrefnau a gymeradwywyd;

- sicrhau caniatâd ôl-weithredol i'r eitemau gwariant a nodwyd gan fy nhîm fel rhai na chaffaelwyd yn unol â'r gweithdrefnau a gymeradwywyd; ac
- adolygu pob cronfa gwsg yn 2016-17 a'u cau lle bo hynny'n briodol.

### Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yng nghamau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd

33 Adolygais gamau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn fy marn i yn berthnasol i'r archwiliad i'm helpu i adnabod, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni wneuthum eu hystyried at ddibenion mynegi barn am eu heffeithiolrwydd gweithredol o ran rheoli mewnol. Fe wnaeth fy adolygiad nodi unrhyw ddiffygion arwyddocaol yng nghamau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

34 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Cynheliais amrywiaeth o fathau o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Golygodd y gwaith hwn y canlynol:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflwyno cynlluniau i arbed costau a'u cyfraniad i gyrraedd cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant a sicrwydd y Bwrdd Iechyd trwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed i ymdrin â'r argymhellion asesu strwythuredig a wnaed llynedd;
- asesu'r cynnydd a wnaeth y Bwrdd Iechyd i ymdrin â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.

35 Crynhoir y prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn dan y penawdau canlynol.

## Ar waethaf mesurau brys a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i gael cydbwysedd ariannol diwedd-blwyddyn, nid yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn gynaliadwy, gyda bwlch cyllido sy'n cynyddu, a rhagolwg am orwariant diwedd-blwyddyn sylweddol am 2016-17

36 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau mae'r Bwrdd Iechyd yn gymryd i gyrraedd cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol at y tymor hwy. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, yr agwedd tuag at gynllunio ariannol, camau rheoli ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol.

### Mae trefniadau cynllunio ariannol ar gael, ond nid yw'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a nodau ehangach moderneiddio'r gwasanaeth wedi eu datblygu'n llawn, ac ni allodd y Bwrdd Iechyd osod cynllun tymor canol integredig (CTCI) oedd yn cydbwyso yn ariannol

37 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau a chamau rheoli ar gyfer gosod ei gyllidebau refeniw a chyfalaf. Mae'r rhain wedi aros yn bennaf fel y buont dros y blynyddoedd blaenorol, ond mae pwysau ariannol cyson wedi golygu, ar waethaf y trefniadau hyn, na allodd y Bwrdd Iechyd gytuno ar gynllun tymor canol integredig (CTCI) ariannol gytbwys yn 2016.

38 Mae rhagdybiaethau cyllidebol a chynlluniau gwella cost (CGC) yn sail i'r CTCI ac adroddir am risgiau ariannol fel rhan o'r broses gynllunio cyllidebau. Fodd bynnag, erys cyfran arwyddocaol o'r arbedion angenrheidiol bob blwyddyn heb eu nodi. Nid yw cyllideb y Bwrdd Iechyd ar sail sero, naill ai yn ei chyfanrwydd neu i rannau ar wahân. Hefyd, nid yw'r cysylltiadau rhwng y gyllideb, amcanion a chynlluniau eraill yn glir. Heb y rhain, mae'r gallu i weithredu cyllidebu sail-sero ac asesu effaith penderfyniadau ariannol yn anodd.

### Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a stiwardiaeth ar gael, ond mae angen gwell craffu ar reolaeth ariannol a sicrhau bod camau rheoli yn cael eu cymhwyso'n gadarn

39 Mae fframwaith o gamau rheoli ar gael, ac fe'i cefnogir gan adran Archwilio Mewnol ragweithiol a Phwyllgor Archwilio effeithiol. Mae gan y Bwrdd Iechyd swyddogaethau a chyfrifoldebau diffiniedig, sydd yn cyfrif am y newidiadau i strwythurau sefydliadol yn 2015-16.

40 Fodd bynnag, o ystyried yr heriau ariannol cynyddol a'r gwendidau presennol mewn adrodd ariannol i'r Bwrdd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau fod y camau rheoli ariannol yn cael eu cymhwyso'n gadarnach trwy drefniadau craffu cryfach. Mae cyfle hefyd i ddwyn ynghyd wybodaeth ariannol a pherfformiad a chraffu arno, gyda sicrwydd yn cael ei roi i'r Bwrdd.

### Mae trefniadau ar gael ar gyfer monitro ariannol, ond nid yw cynnwys, tryloywder a fformat adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn ddigon cadarn

41 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol, gydag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn y gyllideb refeniw, adroddiadau monitro misol i Lywodraeth Cymru a chyfarfodydd herio misol gyda Chyfarwyddwyr Unedau.

42 Mae'r wybodaeth yr adroddir amdano i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn gyson, er i'm gwaith weld bod y rhagolygon ariannol a'r targedau arbedion yr adroddir amdanynt bob mis yn amrywio. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd olrhain perfformiad yn erbyn targedau a osodwyd yn wreiddiol.

43 Mae angen gwella cynnwys, tryloywder a fformat adroddiadau ariannol yn enwedig i'r Bwrdd agored. Hefyd, nid oes fawr ddim adrodd am berfformiad yn erbyn y rhaglen gyfalaf i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i ymdrin â'r mater.

### Mae'r diffyg cyson o ran arbedion a gynlluniwyd a dibyniaeth ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gadw'r ddysgl yn wastad yn arwydd o sefyllfa ariannol anghynaliadwy, ac nid yw'r effaith ar gyflwyno gwasanaethau a pherfformiad yn y tymor byr na'r tymor hir yn glir

44 Cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol yn y tair blynedd ddiwethaf, ond dim ond wedi cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru a mesurau unwaith-am-byth. Ym Mis 9 2016-17, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gorwario £26.6 miliwn ac erys cyfran fawr o'i arbedion heb ei nodi. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn adrodd am ddiffyg diwedd-blwyddyn tebygol o £39 miliwn am 2016-17.

45 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro nac yn adrodd ar effaith rhaglenni gwella cost ar ansawdd naill ai yn y cyfnod cynllunio, trwy'r flwyddyn nac wedi diwedd y flwyddyn. Ymhellach, nid oes ystyriaeth o'r effaith ar amcanion tymor-hir fel rhan o fesurau unwaith-am-byth a gymerir bob blwyddyn er mwyn cyrraedd cydbwysedd ariannol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei agwedd at gynllunio a'i drefniadau llywodraethiant ac yn ymdrin â rhai argymhellion blaenorol, ond mae capasiti'r sefydliad, cysylltiadau rhwng rhaglenni a chynnal cyflymdra newid yn heriau

46 Mae fy ngwaith llywodraethiant a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio strategol ac adrodd y Bwrdd Iechyd a'r agwedd at ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Yr wyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethiant a'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion a materion gwella yr asesiad strwythuredig blaenorol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei agwedd at gynllunio ond nid oes ganddo CTCI wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd, ac mae angen iddo gryfhau craffu, sicrhau capasiti digonol a sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni a blaenoriaethau

47 Ni fedrodd y Bwrdd Iechyd ddatblygu CTCI am 2016-19 yr oedd modd ei gymeradwyo oherwydd problemau perfformiad ac am nad oedd y cynllun yn ariannol gytbwys. Fodd bynnag, yn ystod 2016, CTCI mae trefniadau cynllunio wedi eu gwella, a'r gwaith i ddatblygu CTCI 2017-20 wedi cychwyn yn gynt nac yn y blynyddoedd blaenorol. Mae trefniadau i graffu ar ddatblygu a chyflwyno'r CTCI ar gael, mer bod angen cryfhau mwy arnynt, yn enwedig yng nghyswllt craffu gan is-bwyllgorau'r bwrdd ar gyflwyno a pherfformiad.

48 Mae trefniadau comisiynu'r Bwrdd Iechyd yn aeddfedu. Mae cynlluniau comisiynu yn canolbwyntio ar anghenion iechyd tymor-hir y boblogaeth, a da hynny, a pharatowyd canllawiau i gefnogi cynllunio'r CTCI presennol. Fodd bynnag, mae mwy y dylai'r Bwrdd Iechyd wneud i sicrhau'r canlynol: fod penderfyniadau comisiynu yn cael eu cydbwyso yn erbyn blaenoriaethau cyflwyno cyfredol; fod y cysylltiadau rhwng y fframwaith comisiynu a'r trefniadau cyflwyno yn glir ac yn rhedeg fel y dylent; a bod digon o gapasiti gan y sefydliad i reoli pensaernïaeth gyfredol y rhaglen gomisiynu, newid a chyflwyno.

## Mae trefniadau llywodraethiant a sicrwydd yn fras yn gadarn, er y gellid gwella mwy ar rai agweddau ac y mae newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg

49 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma a ganfûm:

- mae gan y Bwrdd Iechyd system ddiffiniedig o sicrwydd ac y mae'n parhau i'w hadolygu a'i datblygu, er bod angen cyfoesi'r fframwaith rheoli perfformiad a bod cyfleoedd i ymestyn mapio risg a sicrwydd; ac
- y mae'r bwrdd a phwyllgorau yn gyffredinol yn gweithredu'n effeithiol, er bod angen mwy o amser i wreiddio newidiadau diweddar i rai pwyllgorau, ac y mae penodi aelodau newydd i'r bwrdd yn 2017 yn gyfle ac yn risg.

50 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i geisio a chael sicrwydd. Cafodd risgiau a sicrwydd lefel uchel eu mapio yn 2016, a sefydlwyd trefniadau llywodraethiant yn yr unedau cyflwyno newydd. Cafodd y fframwaith rheoli risg ei gyfoesi, ac y mae adolygiad o'r fframwaith rheoli perfformiad ar y gweill. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried mapio risg a sicrwydd pellach i helpu i ffurfio datblygiad parhaus ei fframwaith sicrwydd y bwrdd.

51 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd yn rhedeg yn effeithiol, gan gwrdd â'i ofynion am adrodd blynyddol a pharhau i hybu gwerthoedd y sefydliad a bod yn agored. Y mae'n ymwybodol yr erys mwy i'w wneud mewn nifer o feysydd gan gynnwys sicrhau ymateb yn brydlon i gwynion, a gwreiddio dysgu yn y sefydliad. Mae'r Pwyllgorau Archwilio ac Ansawdd a Diogelwch hefyd yn gweithredu'n effeithiol, gyda threfniadau sicrhau ansawdd wedi eu cryfhau a gwelliannau amlwg yn rhedeg y Pwyllgor Gweithlu. Fodd bynnag, mae newidiadau i aelodau annibynnol yn gyfle i

adnewyddu ond hefyd yn risg i gysondeb, colli profiad ac effaith posib ar aelodaeth a threfniadau pwyllgorau. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn ymddeol yn 2017.

### Gweithredodd y Bwrdd Iechyd rai o'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig 2015, ond nid yw wedi datblygu camau yn ddigonol ar gyfer eraill, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â chynllunio ac adrodd ariannol

52 Rhoes y Bwrdd Iechyd sylw i ymdrin â'r deg argymhelliad o'r asesiad strwythuredig a wneuthum yn 2015. Ac eithrio am ddau o'r two argymhellion ynghylch cynllunio ac adrodd ariannolgwnaed cynnydd rhesymol, gyda chwech o'r wyth argymhelliad sydd weddill wedi eu trin a dau arall ar y gweill. Yr oedd cyflymdra sefydlu bwrdd llywodraethiant gwybodaeth a fforwm ansawdd a diogelwch yn arafach na'r bwriad, er bod y camau hyn bellach wedi eu cwblhau. Fodd bynnag, bydd angen parhau i ganoli ar hyn er mwyn gwreiddio'r trefniadau newydd a'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod 2016 yn llawn.

### Mae trefniadau da wedi eu sefydlu gan y Pwyllgor Archwilio i olrhain argymhellion archwiliadau, ond gall ymateb y rheolwyr i'r argymhellion hyn weithiau fod yn araf

53 Yn ychwanegol at adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion o asesiad strwythuredig 2015, ystyriais hefyd effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i ymateb i argymhellion fy archwiliad. Canfûm fod trefniadau wedi eu sefydlu i fonitro a chraffu ar ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol. Mae rheolwyr yn mynychu Pwyllgorau yn rheolaidd i gyflwyno ymatebion y rheolwyr a rhoi cyfoesiadau am gynnydd, naill ei fel rhan o gynllun gwaith Pwyllgor, neu ar gais mewn ymateb i bryderon Pwyllgor am gamau nas cymerwyd neu gyflymdra.

54 Cefais hefyd fod trefniadau ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch dderbyn adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Iechyd Cymru a rhai gan y Cyngor Iechyd Cymuned, yr Ombwdsmon ac eraill, er nad oes dull ffurfiol o olrhain argymhellion ar gael. Nid oedd trefniadau ar gyfer craffu a monitro adroddiadau gwella perfformiad Unedau Cyflwyno mor glir. Er bod adroddiadau Unedau Cyflwyno yn cael eu derbyn gan y grwpiau gweithredol a'r byrddau cyflwyno perthnasol, nid ydynt yn cael eu derbyn fel mater o drefn gan bwyllgor o'r Bwrdd.

55 Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion, canfu fy ngwaith welliant cyffredinol yn yr adrodd am gwblhau camau i ymdrin â'm hargymhellion dros y flwyddyn a aeth heibio. O'm deg adolygiad yr adroddwyd amdanynt yn ystod 2014 - 2016 ac a gynhwysir yn adroddiad olrhain y Pwyllgor Archwilio:

- adroddwyd bod 67% o'r argymhellion wedi eu cyflawni;
- mae a wnelo mwyafrif (77 %) y camau sydd yn dal wrthi ag argymhellion a wnaed yn 2016;

- dywedwyd fod deg o argymhellion (5%) yn hwyr, gyda'r rhan fwyaf (7) yn ymwneud â'm hargymhellion a gyfoeswyd o 2016 ar arlwyo a maethiad cleifion; ac
- y mae fy asesiad o gynnydd yn erbyn argymhellion fy asesiad strwythuredig yn 2015 yn fras yn gyson â'r statws yr adroddwyd amdano yn adroddiad olrhain archwilio y Pwyllgor Archwilio.

56 Bu prydlondeb datblygu ymatebion y rheolwyr yn broblem yn 2016 ac y mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wrthi'n gweithio gyda'r arweinwyr gweithredol i wella'r sefyllfa hon. Nid yw'r argymhellion o'm hadolygiad dilynol yn Medi 2016 o gontractau meddygon ymgynghorol wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad uchod oherwydd hynny. Fodd bynnag, mae ymateb y rheolwyr i fod i'w adolygu gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2017 a'i gynnwys yn adroddiad olrhain yr archwilio. Hefyd, mae naw o argymhellion yn erbyn fy adolygiad o wasanaethau Mamolaeth yn 2011 sydd yn destun craffu gan y Pwyllgor Archwilio.

## Nododd fy ngwaith archwilio rai datblygiadau cadarnhaol, ond rai cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd pwysig

57 Yn ychwanegol at fy ngwaith asesu strwythuredig, cynhaliwyd adolygiad archwilio perfformiad hefyd i asesu'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'm hargymhellion blaenorol ynghylch contractau meddygon ymgynghorol, arlwyo ysbytai a maethiad cleifion, ac archwiliadau blaenorol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

### Erys cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn hynod anghyson ar draws y Bwrdd Iechyd ac y mae rhai o'r manteision cychwynnol a ddaeth o gontract y meddygon ymgynghorol wedi erydu dros amser. Fodd bynnag, fe all newidiadau sefydliadol diweddar a chynlluniau i gyflwyno cynllunio swyddi electronig helpu i gryfhau trefniadau

58 Wrth adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i ymdrin â'm hargymhellion ynghylch contractau meddygon ymgynghorol, canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd waith i'w wneud o hyd gyda 19 o'r 20 argymhelliad a osodwyd gennyf gynt. Deuthum i'r casgliadau canlynol:

- mae canllawiau cenedlaethol ar y broses o gynllunio swyddi yn cael eu cymhwyso'n anghyson, er y gall newidiadau mewn swyddogaethau sefydliadol a chyflwyno cynllunio swyddi yn electronig helpu i gryfhau trefniadau; ac
- mae rhai o'r manteision a fwriadwyd i ddeillio o'r contract a welwyd i ddechrau wedi erydu dros amser; er enghraifft, canran y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio 12 neu fwy o sesiynau wedi cynyddu ers 2010.

### Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da wrth ymdrin â'm hargymhellion ar arlwyo ysbytai a maethiad cleifion, ond mae angen mwy o waith i gryfhau mwy ar brosesau dogfennu a gwybodaeth am gleifion, ymestyn y dewis o brydau, sicrhau hyfforddiant rheolaidd, a chau'r blwch rhwng cost ac incwm arlwyo heb fod i gleifion

59 Yr wyf wedi asesu sut yr ymdriniwyd â'm hargymhellion ar arlwyo ysbytai a maethiad cleifion. Canfûm fod cynnydd cyffredinol da wedi'i wneud, gyda 25 o'r 44 argymhelliad wedi'u cyflawni'n llawn ac 18 eraill ar y gweill. Dyma fy nghasgliadau:

- mae trefniadau i gwrdd ag anghenion deiet a maeth y cleifion wedi gwella, ond mae angen cryfhau hyfforddiant, prosesau dogfennu a gwybodaeth cleifion;
- mae amrywiaeth briodol o ddewisiadau bwydlenni ar gael i'r rhan fwyaf o gleifion ac y mae profiadau adeg prydau yn gyffredinol dda;
- mae costau arlwyo cleifion yn weddol sefydlog, mae cost am bob pryd i'r claf yn cymharu'n dda â chyrff eraill y GIG ac y mae gwastraff bwyd islaw'r targed cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau arlwyo i rai heb fod yn gleifion yn rhedeg ar golled; ac
- y mae trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd am arlwyo ysbytai a gwasanaethau maethiad yn gadarn i raddau helaeth.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â materion a godwyd mewn archwiliadau TGCh blaenorol, ond mae cynnydd arafach mewn rhai meysydd, newidiadau diweddar yn y sefydliad a chyfoesiadau ym mhensaernïaeth TG yn peri bod angen rhai camau pellach

60 Yr oedd fy adolygiad dilynol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ymdrin â'r canlynol: ansawdd data; adfer wedi trychineb a pharhad busnes; trefniadau Caldicott; and chefnogaeth gwybodaeth. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau yn llawn naw o'r 21 argymhelliad ac wedi cwrdd yn rhannol ag wyth arall. Fy nghanfyddiadau penodol oedd y rhai isod:

- nid yw'r Fframwaith Llywodraethiant Gwybodaeth wedi ei weithredu'n llawn eto yn dilyn ail-strwythuro'r rheolwyr yn 2015, ond mae mewn gwell sefyllfa i sicrhau'r Bwrdd ar ansawdd data;
- mae cynllunio Adfer Wedi Trychineb (AWT) a Pharhad Busnes (PB) yn datblygu, ond nid yw cynlluniau PB wedi eu sefydlu cystal mewn rhai adrannau clinigol a chyfyngedig yw cynnal profion ar gynlluniau AWT a PB;
- mae trefniadau llywodraethiant Caldicott wedi gwella, ond mae gwendidau heb eu datrys mewn cynllunio olyniaeth, cael adnoddau, meincnodi ac adnabod ffynonellau o wybodaeth y gellir ei nodi am gleifion; ac
- adolygwyd trefniadau cefnogi data i adlewyrchu'r amgylchedd rhithiol newydd a chânt eu gwella gan y catalog gwasanaeth newydd, ond nid oes trefniadau wrth gefn i ddata a ddelir ar ddyfeisiadau meddygol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol – BILIPABM | Mai 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Archwiliad o Adroddiad Datganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol | Awst 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol | Medi 2016 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Arlwyo Ysbytai a Maethiad Cleifion - Adolygiad Dilynol | Ionawr 2016 |
| Archwiliadau Technoleg Cyfathrebu - Adolygiad Dilynol | Awst 2016 |
| Contract Meddygon Ymgynghorol - Adolygiad Dilynol | Medi 2016 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Ionawr 2017 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth 2016 |

Arddangosyn 3: Gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i ddigwydd

Mae hefyd nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i ddigwydd yn y Bwrdd Iechyd[2]. Dangosir y rhain yn y tabl isod, gydag amcangyfrifon o'r dyddiadau ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o ddyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu tu allan i Oriau | Mai 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau | Gorffennaf 2017 |
| Adolygiad dilynol o apwyntiadau dilynol cleifion allanol | Medi 2017 |

[2] The draft report is currently in clearance. Yn ogystal, disgwylir i'r adolygiad o ran Comisiynu Gwasanaethau Argyfwng Ambiwlans gael ei gwblhau erbyn Mawrth 2017.

# Atodiad 2

## Ffî archwilio

Yr oedd Cynllun Archwilio 2016 yn gosod allan y ffi archwilio arfaethedig o £421,807 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o’r union ffi yn unol â’r ffi a osodwyd allan yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Arddangosyn 4: Risgiau archwilio arwyddocaol, gwaith a wnaed arnynt a deilliannau

| Risgiau archwilio arwyddocaol | Gwaith a wnaed a deilliant |
|---|---|
| Mae'r risg o reolwyr yn gwrthwneud camau rheoli yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd annisgwyl y gallai'r fath wrthwneud ddigwydd, fe'i gwelir fel risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Gwnaeth fy nhîm archwilio y canlynol:<br>• rhoi prawf ar briodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed i baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifo i weld a oes tuedd ynddynt;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i drefn arferol busnes.<br>Gwaith wedi ei gwblhau a dim problemau'n codi. |
| Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll mewn cydnabyddiaeth refeniw ac o'r herwydd fe'i trinnir fel risg arwyddocaol [ISA 240.26-27]. | Gwnaeth fy nhîm archwilio y canlynol:<br>• adolygu a rhoi prawf ar y ffrydiau cyllido ac incwm unigol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd; ac<br>• ystyried a nodwyd yr holl ffrydiau cyllido ac incwm.<br>Gwaith wedi ei gwblhau a dim problemau'n codi. |
| Mae risg arwyddocaol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu cwrdd â'i ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol. Dangosodd y sefyllfa 10 mis ddiffyg blwyddyn-hyd-yma o £21 miliwn ac yr oedd yn rhagweld diffyg diwedd-blwyddyn o £12 miliwn.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gall fod tuedd ym marn ac amcangyfrifon gan y rheolwyr mewn ymdrech i gyrraedd y terfyn adnoddau. | Canolbwyntiodd fy nhîm archwilio ei brofion ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd wrth adrodd. Gwaith wedi ei gwblhau a dim problemau'n codi.<br>Dewisais osod adroddiad gwirioneddol ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau lle cododd. |
| Mae risg arwyddocaol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau difrifol am ei safle ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad monitro 10 mis yn rhagweld diffyg/cydbwysedd arian o £22 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Mae diffyg arian yn debyg o gynyddu amser talu credydwyr a chael effaith ar berfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC) | Mae fy nhîm archwilio wedi archwilio perfformiad PTSC yr adroddwyd amdano. Fel y gwelir yn Arddangosyn 1, yr ydym wedi adrodd am bryderon ynghylch manwl gywirdeb y perfformiad yr adroddwyd amdano. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.